

Mae disgwyl i bawb:

1. Siarad Cymraeg
2. Fod yn brydlon i wersi a thynnu eitemau o ddillad nad ydynt yn wisg ysgol
3. Ddod ag offer angenrheidiol
4. Ddefnyddio ffonau a chlustffonau ar gais yr athro/athrawes yn unig
5. Yfed dŵr yn unig mewn gwersi
6. Greu ethos dawel a bod yn barod i weithio
7. Ddefnyddio llais priodol a pheidio â gweiddi allan.
8. Ddefnyddio iaith garedig ac addas
9. Beidio â chrwydro o'u sedd heb ganiatâd
10. Barchu hawl eraill i addysg

Rheolau o amgylch yr ysgol

1. Cerddwch ar y chwith
2. Dim gwm cnoi
3. Siaradwch Gymraeg
4. Parchwch eraill
5. Byddwch yn brydlon
6. Rhowch eich sbwriel yn y bin
7. Ffonau symudol ar gais athro yn unig



POLISI PARCH

Canlyniad Ymddygiad Annerbyniol Mewn Gwers

Tro 1af : Rhybudd 1

Eglurhad clir o'r rheswm a'r camau disgyblu nesaf

(Opsiwn gan yr Athro i wneud symudiad Adrannol i osgoi cerydd pellach)
Opsiwn i ail-leoli'r disgybl

2il dro : Rhybudd 2

Eglurhad clir o'r rheswm a rhybudd y bydd 200 nesaf

(Opsiwn gan yr Adran i wneud symudiad Adrannol i osgoi cerydd pellach)

3ydd tro : Galwad 200

Ymddygiad difrifol wael :

Galwad 200 a galwad o'r Swyddfa i aelod o'r Tim Arwain / Cynnydd a Lles i gasglu'r disgybl i fynd i'r Ystafell 200 ble bydd disgwyl iddynt gwblhau taflen i fyfyrto ar eu hymddygiad Cosb egwyl a chinio yn yr Ystafell 200

Yn dilyn 3 symudiad Adrannol

bydd Cosb egwyl a Chinio drwy drefniant yr Ardal Cynnydd gyda'r Pennaeth Blwyddyn

Yn dilyn 3 Galwad 200

(ac ar ôl pob Galwad 200 ar ôl hynny)bydd Cosb ar ôl Ysgol am awr yn dilyn trefniant gyda'r Pennaeth Blwyddyn a'r Ardal Cynnydd

Dathlu Llwyddiant

Clod i'w gofnodi ar Moodle
Stampiau Clod yn y Llawlyfrau – ymdrech arbennig o ran gwaith, ymddygiad neu Gymreictod.
Disgybl yr Wythnos gyda'r TP – cerdyn post adref
Disgybl yr Wythnos i aelod o bob dosbarth gan bob athro pwnc – cerdyn post adref
Dathlu llwyddiannau yn y gwasanaethau
Gwobrwyo llwyddiant rheolaidd

Rheolau Ffonau Symudol



Nid oes hawl defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r ysgol (disgyblion BI 7 – 11) oni bai fod athro yn caniatâu hynny mewn gwers. Gwnewch yn siwr fod y ffôn wedi ei ddiffodd ac yn eich bag.

Os oes angen gwneud galwad, dylid gofyn am ganiatâd yn yr Ardal 'Cynnydd'.

Camdefnyddio Ffonau

Os gwelir ffôn ar y coridorau, iard neu faes chwarae = **Colli tan ddiwedd y dydd.**

Ewch i'r Ardal Cynnydd ar ddiwedd y dydd i gasglu'ch ffôn. Cedwir cofrestr.

Defnyddio o ffôn mewn gwers heb ganiatâd athro = **Galwad 200 a cholli'r ffôn tan ddiwedd y dydd.**
Colli ffôn tair gwaith = Gwahodd rhieni i gasglu'r ffôn o'r ysgol.